**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**13 MEHEFIN 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ar ddydd Iau, 13 Mehefin 2019

**PRESENNOL: Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Geoff Collett, Bob Connah, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Paul Johnson, Richard Jones, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Aaron Shotton, Andy Williams ac Arnold Woolley

**DIRPRWY:** Cynghorydd: Helen Brown (ar ran Bernie Attridge)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr: Haydn Bateman a Paul Cunningham

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y Cynghorydd Dave Hughes yn bresennol fel arsylwr

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Addysg; Cynghorydd Billy Mullin, Cabinet Aelod Cabinet ar gyfer Rheoli Corfforaethol; Cynghorydd Glyn Banks, Aelod Cabinet Cyllid; Prif Weithredwr; ac Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

Rheolwr Refeniw – ar gyfer cofnod rhif 14

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**10. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**11. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mai 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**12. OLRHAIN GWEITHRED**

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad cynnydd ar gamau'n deillio o gyfarfodydd blaenorol.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r dadansoddiad o'r Cyllid Canolog a Chorfforaethol yn rhan o ddiweddariad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) yng nghyfarfod Gorffennaf.

O ran adroddiadau monitro'r gyllideb refeniw, dywedodd y Cynghorydd Heesom er bod amrywiadau misol i'w gweld, roedd yn bwysig bod Aelodau'n

gallu monitro lefelau gwariant gwirioneddol ym mhob maes portffolio Trosolwg a Chraffu. Mewn ymateb dywedodd y Prif Weithredwr fod y gyllideb a gymeradwywyd wedi'i chyhoeddi. Gan y byddai adroddiad interim yn cael ei lunio ar gyfer Gorffennaf, cytunodd i adolygu fformat yr adroddiad ar gyfer Medi.

Dywedodd y Cynghorydd Jones fod yr adroddiadau monitro eisoes yn darparu'r wybodaeth hon a bod angen mwy o fanylder am achosion y prif amrywiadau. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai'r fformat yn cael ei adolygu.

Cynigiwyd argymhellion yr adroddiad gan y Cynghorydd Jones ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed.

## 13. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol i'w hystyried. Yn sgil cael ei friffio ar Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, byddai'r Pwyllgor yn cael diweddariad ar yr Adolygiad Actiwaraidd yng Ngorffennaf neu Fedi.

Cynigiwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Johnson ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd, yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Bod Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 14. CYFRADDAU CASGLU TRETH Y CYNGOR

Cyflwynodd y Rheolwr Refeniw ddiweddariad ar y cyfraddau casglu Treth y Cyngor diwedd-blwyddyn diweddaraf, lefelau ôl-ddyledion a chymariaethau ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn dangos bod sefyllfa casglu Treth y Cyngor yn gwella fesul blwyddyn yn Sir y Fflint oedd yn cymharu'n ffafriol â chyfraddau casglu cyfartalog drwy Gymru, Lloegr a'r Alban.

Mae ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfraddau casglu drwy Gymru ar gyfer 2018/19 yn dangos bod Sir y Fflint wedi cofnodi'r gyfradd gasglu uchaf o fewn un flwyddyn, sef 98.2%; roedd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 97.3% (swm ychwanegol o £700K o ran llif ariannol). Er gwaethaf y cynnydd o 6.71% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2018/19, roedd Sir y Fflint wedi cynnal lefelau casglu cadarn trwy ei ddull o ymgysylltu â thrigolion, cyfeirio eu sylw at ostyngiadau a thargedu cymorth i'r rhai oedd yn cael trafferth talu. Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae balansau ôl-ddyledion Treth y Cyngor ar gyfer 2018/19 wedi gostwng ymhellach i £1.2m. Roedd nodyn ystadegol ar

‘Berfformiad Cymru Gyfan’ yn dangos a chymharu cyfraddau casglu Treth y Cyngor a Chyfraddau Busnes.

Wrth ganmol perfformiad Sir y Fflint, talodd y Cynghorydd Roberts deyrnged i’r Rheolwr Refeniw a’i dîm, a hefyd i drigolion Sir y Fflint am weithio gyda’r Cyngor i dalu eu Treth y Cyngor a chyfrannu at wasanaethau lleol. Hefyd manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i’r holl staff oedd ar ddyletswydd yn ystod y cyfnod diweddar o dywydd mawr.

Yn ystod yr eitem hon, diolchodd y Cynghorydd Mullin a’r Cynghorydd Banks i’r Rheolwr a’i dîm am sicrhau’r canlyniadau, fel y gwnaeth nifer o Aelodau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at benderfyniad LlC i gael gwared ar ddefnyddio ‘traddodiad’ fel dull adennill ar gyfer y rhai oedd yn amharod i dalu Treth y Cyngor. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor wedi gwneud sylwadau yn erbyn y penderfyniad hwn ar sail ei fod yn llwybr priodol i adennill taliad gan leiafrif o bobl oedd yn fwriadol yn osgoi talu Treth y Cyngor ac yn gwrthod cydweithredu. Tynnwyd sylw at effaith penderfyniad LlC ynghylch cyfraddau casglu yn y dyfodol gan nodi ei fod yn risg. Eglurodd y Rheolwr Refeniw fod y broses gwrandawiad traddodi’n wrandawiad teg i ystyried gallu rhywun i dalu.

Soniodd Cynghorydd Jones am yr effaith gadarnhaol ar y llif ariannol o ran sicrhau cyfraddau casglu o fewn blwyddyn a’r angen i wneud sylwadau ysgrifenedig i ailgyflwyno’r broses draddodi. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai hyn fod yn rhan o drafodaeth ehangach ar Dreth y Cyngor fel rhan o’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, gan ystyried tegwch a chynaliadwyedd Treth y Cyngor, Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor a’r effaith ar y llif ariannol pe byddai cyfraddau casglu’n gostwng. Roedd dadansoddiad o ôl-ddyledion a ddilëwyd drwy Gymru i’w gweld yn ystadegau LlC.

Holodd y Cynghorydd Brown ynghylch ymestyn cytundebau talu i’r rhai oedd yn cael trafferth talu. Dywedodd y Rheolwr Refeniw fod trigolion yn cael eu hannog i dalu o fewn y flwyddyn a bod dulliau adennill yn cael eu haddasu i’r rhai nad oeddent yn gallu gwneud hynny.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Johnson, soniodd y Rheolwr Refeniw am rannu arfer da drwy Gymru.

Dywedodd y Cynghorydd Shotton fod pryderon y Cyngor ynghylch cael gwared ar y broses draddodi wedi’i godi drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cynigiwyd yr argymhellion, a newidiwyd i adlewyrchu’r drafodaeth, gan y Cynghorydd Heesom ac fe’u heiliwyd gan y Cynghorydd Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi, eu bodlonrwydd â’r lefelau casglu diweddaraf o ran Treth y Cyngor a’r wybodaeth ategol;

(b) Llongyfarch y staff dan sylw am eu perfformiad;

(c) Cynnwys y mater o golli'r broses draddodi, ystyried sut y gellir cynnal y perfformiad hwn o fewn SATC; a

(d) Chofnodi bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi pobl Sir y Fflint am eu dealltwriaeth o'r angen i gynyddu Treth y Cyngor.

**15. ADRODDIAD GWYBODAETH AM Y GWEITHLU - CHWARTER 4 2018/19**

Cyflwynodd Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol yr adroddiad gwybodaeth am y gweithlu - Chwarter 4 o 2018/19 oedd yn canolbwyntio ar berfformiad a thueddiadau.

Roedd y cynnydd yn y ffigurau Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) yn 2018-19 wedi cynnwys nifer o weithwyr asiantaeth a benodwyd i swyddi parhaol a gafodd effaith gadarnhaol ar wariant ar weithwyr asiantaeth. Roedd y gostyngiad mewn ffigurau presenoldeb yn siomedig, fodd bynnag roedd hyn yn adlewyrchu sefyllfa debyg ar draws nifer o gynghorau eraill yng Nghymru. Roedd y prif reswm am absenoldeb salwch (Straen, Iselder, Pryder) hefyd yn adlewyrchu'r duedd genedlaethol ac yn Sir y Fflint, roedd dadansoddiad gan Iechyd Galwedigaethol yn dangos bod mwyafrif yr achosion hynny wedi'u sbarduno gan broblemau personol oedd yn effeithio ar waith. Roedd y tîm Iechyd Galwedigaethol yn parhau i weithio gyda gwasanaethau ac roedd wedi helpu i leihau nifer yr achosion o straen yn ymwneud a gwaith yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd dadansoddiad manwl ar ganfyddiadau'r tîm yn cael ei adrodd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

O ran cwblhau arfarniadau oedd yn faes blaenoriaeth, rhannodd y Prif Weithredwr ei siom gyda'r ffigur terfynol o 75% oedd yn ostyngiad ers y chwarter blaenorol (91%). Ni chredid bod hwn yn ffigur cywir gan nad oedd arfarniadau a gwblhawyd wedi'u cofnodi'n ddigonol ac oherwydd diffyg trefnu arfarniadau dilynol o fewn y cyfnod. Roedd cynllun gweithredu manwl yn cynnwys adolygiad o'r model arfarnu a fyddai'n helpu i sicrhau gwell canlyniadau. Byddai cynnydd Chwarter 2 yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor ym Medi. Hefyd, byddai eitem arbennig ar arfarniadau pan allai'r Prif Swyddogion perthnasol fod yn bresennol i egluro unrhyw feysydd lithriant.

Soniodd y Cynghorydd Jones am gyfraddau hunanladdiad cenedlaethol ar gyfer y grŵp oed 25-45, yn arbennig dynion oedd yn aml yn ei chael yn anodd siarad am faterion iechyd meddwl. Gofynnodd a oedd yn bosibl dadansoddi ffigurau ar gyfer y prif gategori absenoldeb (Straen , Iselder, Pryder) i roi awgrym o'r rhaniad rhwng gwrywod a benywod. Cytunodd y Prif Weithredwr a dywedodd y gellid dangos hefyd yr ystod oedran.

Wrth rannu rhwystredigaethau swyddogion am berfformiad cwblhau arfarniadau, dywedodd y Cynghorydd Jones fod hon yn broblem ers tro a galwodd i Brif Swyddogion fod yn bresennol yn y Pwyllgor cyn data Chwarter 2 i gynnig esboniad ynglŷn â'u meysydd gwasanaeth. Dywedodd mai Prif Swyddogion oedd yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod arfarniadau'n cael eu cwblhau ac y dylai hynny gael ei adlewyrchu fel rhan o'u harfarniad eu hunain.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod adolygiad cychwynnol wedi dangos cysondeb annigonol o ran gweithio o fewn systemau ac y byddai hyn yn cael

sylw. Yn ddiweddar gwnaed cynnydd da ar arfarniadau oedd angen eu cynnwys yn y broses ar draws y sefydliad rhag bod llithriant pellach. Fel swyddog arweiniol, byddai'n ceisio sicrwydd fod cynnydd ar y cynllun gweithredu ac os nad oedd yn fodlon â'r esboniadau a roddid, byddai angen i'r Prif Swyddogion perthnasol fynd gerbron y Pwyllgor. Tra bod Prif Swyddogion yn cael eu dwyn i gyfrif am eu portffolios, roedd cyfrifoldeb ehangach ymysg rheolwyr a goruchwylwyr yn eu meysydd gwasanaeth.

Dywedodd yr Uwch Reolwr fod hyfforddiant cynyddol i reolwyr yn cael effaith gadarnhaol a bod arfarniadau mwy cyson a safonol yn cael eu llunio. Cytunodd i gael gair gyda'r Cynghorydd Woolley y tu allan i'r pwyllgor i fod yn glir ynghylch niferoedd a ffigurau FTE yn yr adroddiad.

Cwestiynodd y Cynghorydd Collett y rhesymeg dros gynnwys adrannau o'r adroddiad fel cyfeiriadedd rhywiol a chredoau crefyddol lle'r oedd nifer o ymatebion yn amhendant. Eglurodd Swyddogion yr angen i'r Cyngor gasglu cymaint â phosibl o wybodaeth, gyda'r adroddiad yn cynnwys meysydd o ddiddordeb y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor. Os oedd Aelodau'n dymuno, gallai'r adroddiad chwarterol ganolbwyntio ar flaenoriaethau fel presenoldeb, arfarniadau a gweithwyr asiantaeth, gyda'r adroddiad blynyddol yn dadansoddi'r holl ystadegau eraill.

Canmolodd y Cynghorydd Banks onestrwydd y Prif Weithredwr wrth fynd i'r afael â mater arfarniadau. Dywedodd y dylai'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Jones am iechyd meddwl yng Nghymru gysylltu â gwaith mewn meysydd gwasanaeth eraill fel Tai.

Yn ogystal â'r cymorth presennol sydd ar gael i staff, dywedodd yr Uwch Reolwr y byddai'r Strategaeth Iechyd a Lles yn cynnwys ffocws ehangach ar agweddau corfforol, meddyliol ac ariannol unigolion, gan fod pob un o'r rhain yn effeithio ar bresenoldeb. Un o'r amcanion fyddai darparu Hyrwyddwr Iechyd Meddwl wedi'i hyfforddi ar gyfer pob gwasanaeth.

Canmolodd y Cynghorydd Roberts y Prif Weithredwr am fod yn agored ac egluro'r problemau a'r camau sy'n cael eu cymryd.

Croesawodd y Cynghorydd Shotton y camau oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau a nodi ffigur gwirioneddol ar gyfer cwblhau arfarniadau, gan ofyn a fyddai'n bosibl diweddaru'r Pwyllgor. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai dilysu'r nifer oedd wedi cwblhau arfarniadau'n rhan o'r diweddariad a fyddai'n cael ei roi i'r Pwyllgor.

Cynigiwyd yr argymhellion, a newidiwyd i adlewyrchu'r drafodaeth, gan y Cynghorydd Johnson ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Collett.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu ar gyfer chwarter pedwar o 2018/19;

(b) Mynegi siom at y gostyngiad mewn Arfarniadau perfformiad a gofyn am eglurhad;

(c) Derbyn y cynnig gan y Prif Weithredwr i gyflwyno adroddiad ar Arfarniadau yng nghyfarfod Medi; a

(d) Bod yr Uwch Reolwr yn cael gair gyda'r Cynghorydd Woolley ar ôl yn cyfarfod i fod yn glir ynghylch niferoedd a ffigurau FTE.

## 16. CYNLLUN Y CYNGOR 2019/20

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i ddiweddaru'r Pwyllgor ynghylch y broses flynyddol i gwblhau'r adolygiad o Gynllun y Cyngor 2019/20. Byddai Rhan 1 o Gynllun y Cyngor yn cael ei ystyried gan y Cabinet i'w argymell i'r Cyngor Sir ei fabwysiadu ar 18 Mehefin.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y prif ganlyniadau o'r ddau weithdy ar gyfer Aelodau gan nodi newidiadau ers Cynllun y Cyngor 2018/19. Hefyd cafodd nifer o awgrymiadau eu cynnwys i wella'r broses ar gyfer cymryd rhan yn y dyfodol gan gynnwys gwell alinio rhwng themâu Cynllun y Cyngor a rhaglenni gwaith i'r dyfodol Trosolwg a Chraffu. Byddai Rhan 2 o Gynllun y Cyngor, yn cynnwys manylion am fesurau perfformiad, yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor yng Ngorffennaf cyn cael ei ystyried gan y Cabinet.

Wrth siarad am y broses dywedodd y Cynghorydd Heesom fod yr amseriad yn golygu nad oedd cyfle i alw'r penderfyniad i mewn. Ailadrodd ei bryderon am yr angen i allu blaenoriaethu meysydd penodol o Gynllun y Cyngor a dywedodd nad oedd y Cynllun Cludiant Integredig yn delio â mater strategaeth coridor cludiant oedd yn hanfodol i'r thema Cyngor Uchelgeisiol. Dywedodd fod gormod o ffocws ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ac nad oedd cysylltiadau synhwyrol ag ardal ehangach Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Cynllun y Cyngor yn cael ei fabwysiadu bob blwyddyn a'i fod ond yn cynnwys camau y gallai'r Cyngor eu cyflawni, h.y. swyddogaethau'r Cyngor. Yn y Cyngor Sir, byddai cyfle i Aelodau gynnig newidiadau a ddylai fod yn benodol, ymarferol a hyfyw. Roedd yr un statws i bob un o'r themâu yng Nghynllun y Cyngor ac roeddent wedi'u cynnwys yn y gyllideb i'w darparu o fewn y flwyddyn. Os cytunwyd yn y gweithdy Aelodau, roedd adborth wedi'i gynnwys ac roedd yr arolwg dilynol wedi ennyn ymatebion gan ddim ond 17 Aelod.

Cwestiynodd y Cynghorydd Roberts sylwadau'r Cynghorydd Heesom am ymwneud Aelodau gan fod y broses ymgynghori wedi bod yn gynhwysol gyda chyfle pellach i drafod yn y Cyngor Sir. O ran cludiant, dywedodd fod angen eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r cynigion ar gyfer Metro Gogledd Cymru tra nad oedd ffyrdd yn rhan o'r cylch gorchwyl i'r Pwyllgor hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Jones y byddai wedi bod yn well cyflwyno'r cynllun yn ôl maes gwasanaeth. Yn y gweithdy, roedd wedi codi cwestiynau ynghylch hepgor 'sicrhau cymaint â phosibl o incwm a chyflogadwyedd' ynghyd â chyfeiriad penodol at NEETS (heb fod mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant) a Chyfiawnder Ieuenctid.

Dywedodd y Prif Weithredwr mai bwriad y gweithdai oedd canfod meysydd gwasanaeth y dylid eu cynnwys yn y Cynllun drafft. Cytunodd i edrych ar y pwynt cyntaf a dywedodd fod NEETS a chyfiawnder Ieuenctid wedi'u cynnwys yn Rhan 2 o Gynllun y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Roberts y dylai'r Cyngor fod yn falch o'i berfformiad i gynnal lefelau isel o NEETS.

Diolchodd y Cynghorydd Mullin i Aelodau am eu cyfraniadau yn cynnwys y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Collett ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Johnson. Pleidleisiwyd dros y cynnig, ac fe'i pasiwyd. Gwnaed cais gan y Cynghorydd Heesom i gofnodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y diweddariad am y camau i gwblhau'r adolygiad o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn barod i argymell y Cynllun i'r Cyngor ei fabwysiadau.

## 17. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.55am)

…………………………

**Cadeirydd**